

## Diaconiaid

Cynhaliwyd pwyllgor diaconiaid Carmel Llanllechid bawn Mawrth diwethaf. Bwrwiedir cyflwyno'r hyn a drafodwyd yn y gyfres 'Dechreuadau' dan arweiniad y Parchg Casi Jones yn ddiweddar i sylw'r eglwys yn ystod un o'n hoedfaon ym mis Medi.

## Henaduriaeth

Cynhelir cyfarfod nesaf Henaduriaeth Arfon yng nghapel Carmel (Arfon) am 6.30 o'r gloch nos Fercher, Gorffennaf 15.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Mehefin 21:** Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Gweinyddir y Cymundeb yn ystod oedfa'r bore.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Nos Wener, Mehefin 19:** CIC am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Mehefin 21:** Cynhelir oedfa am 10.00 o'r gloch. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Euros Jones, Llangefni.

## Y mis nesaf - Deiniolen

### Mehefin 14

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Reuben Roberts

### Mehefin 21

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

### Mehefin 28

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Miss Nerys Jackson

## REHOBOTH

**Dydd Sul, Mehefin 21:** Ni fydd oedfa.

## BETHLEHEM

**Dydd Sul, Mehefin 21:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Megan Williams, Porthaethwy.

## CARMEL

**Nos Wener, Mehefin 19:** Cynhelir 'Dwylo Prysur' am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Mehefin 21:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Marcus Robinson, Bethel.

## CYNLLUN EFE

**Dydd Gwener, Mehefin 19:** Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



## Y mis nesaf - Llanberis

### Mehefin 14

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

### Mehefin 21

10.00 a.m. - Oedfa  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Euros W Jones

### Mehefin 28

10.30 a.m. - Oedfa Deulu  
5.00 p.m. - DIM oedfa



# Gronlyn

Tafalen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 642: Dydd Sul, 14 Mehefin, 2015

## Lowe a'r Gyfraith

Unwaith erioed, rai blynyddoedd yn ôl erbyn hyn, y cefais fy ngwysio i fod yn aelod o reithgor. Ond fues i ddim ar gyfyl y llys o gwbl gan nad oedd gan weinidogion yr Efengyl ar y pryd hawl i fod ar reithgor. Un o fanteision bod yn weinidog bryd hynny oedd mai'r cwbl oedd rhaid i mi ei wneud oedd dychwelyd y ffurflen gan nodi mai gweinidog oeddwn. Mae pethau wedi newid ers hynny, ac ers mis Mehefin 2004 mae gweinidogion, meddygon, cyfreithwyr ac eraill a oedd wedi eu heithrio o'r blaen yn gymwys i fod ar reithgor os nad oes yn 'reswm da' dros eu hesgusodi.

Wn i ddim yn union beth yw'r rheolau ynghylch gwasanaeth rheithgor yn Vermont yn yr Unol Daleithiau na chwaith beth yw swydd dyn o'r enw James Lowe a gafodd wŷs i fod ar reithgor yn nhref St Johnsbury yn y dalaith honno. Gydag enw fel 'Lowe', mi allech feddwl y byddai James wedi croesawu cael rhan yng ngwaith y llys! Ond doedd gan Mr Lowe na bwriad nac awydd i fod ar y rheithgor. Mi aeth i'r llys, ond fe'i hanfonwyd adref gan y barnwr am ei fod wedi ei wisgo fel carcharor! Roedd James Lowe yn credu y byddai gwasanaeth rheithgor yn drysu ei waith a'i fywyd teuluol, ac felly roedd wedi dod i'r llys mewn gwisg ffansi - y siwt un darn, streipiâu du a gwyn y byddai carcharorion yn eu gwisgo mewn hen ffilmiau ers talwm. Bu ond y dim iddo gael ei gyhuddo o ddirmyg llys cyn mynd adref!

Mae un o ddamhegion Iesu Grist yn sôn am ddyd yn cael ei daflu o wledd briodas (yn hytrach na llys barn) am ei fod wedi ei wisgo'n anaddas (Mathew 22:1-14). Doedd ganddo ddim gwisg briodas amdano. Mewn rhyw ffordd roedd y dyn yn debyg i James Lowe. Herio awdurdod y llys a wna'i hwnnw yn ei wisg carcharor, a herio trefnydd y briodas a wna'i'r dyn yn y ddameg gan ei fod, mae'n rhaid, wedi gwrthod gwisgo'r wisg addas a fyddai'n cael ei chynnig yn amser Iesu i bawb a oedd wedi eu gwahoddi i briodas.

Herio Duw a wna'n ninnau wrth feddwl y medrwn ddod i'w lys yntau yn nillad anaddas ein gweithredoedd da ein hunain. Fel 'bratiau budron' y cyfeiria'r Beibl at y fath wisg, a herio Duw a wna'n os mentrwn ato yn y dillad hynny. Yn lle bratiau budron, fe'n gwahoddir i wisgo cyfiawnder yr Arglwydd Iesu Grist er mwyn dod i'r llys, nid fel aelod o'r rheithgor, ond fel diffnydd sy'n sefyll gerbron Duw'r barnwr ac yn derbyn pardwn llawn am ei holl droseddau. Fe gawn ni fynd yn rhydd am fod Iesu wedi sefyll yn ein lle yn y llys.

Fe rybuddiwyd Mr Lowe y gallasai fod wedi ei garcharu am ddirmyg llys; fe daflwyd dyn y ddameg i'r tywyllwch eithaf; ond mae pawb sy'n derbyn Iesu ac yn cael ei wisgo â'i gyfiawnder yn cael ei waredu oddi wrth y tywyllwch a'r carchar tragwyddol sydd yn eu hwynebu hwy fel pawb arall ar wahân i Grist a'i ras a'i gariad.

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch yn Capel Coch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch ac oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Reuben Roberts, Bontnewydd.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Geraint Roberts, Porthaethwy.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Gweinyddir y Cymuned yn ystod yr oedfa.

## Diolch

Diolch yn fawr i'r rhai sy'n arwain yr oedfaon o fewn yr Ofalaeth heddiw. Estynnwn groeso cynnes i chi unwaith eto.

## Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd.

## Llan Llanast

Ddydd Mawrth diwethaf cynhaliwyd Llan Llanast ym Methlehem, Talybont.

Fe'i trefnwyd gan Jennifer Roberts, un o swyddogion plant ac ieuencid yr Eglwys yng Nghymru.

Diolch yn fawr i aelodau Bethlehem a ddaeth yno i helpu gyda'r gwahanol weithgareddau. Roedd yn braf iawn cael digon o bobl i helpu.

Daeth o leiaf bymtheg o blant yno, a gobeithio'n fawr eu bod wedi mwynhau eu hunain. Roedd rhai ohonyn nhw'n blant yr Ysgol Sul ym Methlehem, a rhai yn ddieithr.

Yn ystod yr awr gyntaf, bu pawb yn brysur yn gwneud y gwaith crefft oedd wedi ei drefnu ar eu cyfer ar thema'r Pentecost. Yna cafwyd stori'r Pentecost gan Jennifer, ac roedd y pyped oedd efo hi yn help i ddal sylw'r plant.

Cyn mynd adref, cafwyd diod a chacen a bisged.

Fel y soniais yr wythnos ddiwethaf, mae Llan Llanast yn anelu at ddod â phlant a'u rhieni gyda'i gilydd i gymdeithas yr eglwys. Y nod yw cael pobl o bob oed yn gwneud y gwahanol waith crefft ac yn cymryd rhan yn yr addoliad.

Ni chafwyd hynny'r diwrnod o'r blaen, mae'n rhaid cyfaddef gan mai dod eu hunain a wnaeth y rhan fwyaf o'r plant yn hytrach na dod gyda'u teuluoedd. Yr hyn a gafwyd felly oedd cyfarfod plant ac nid y Llan Llanast a fwiadwyd. Ond

roedd gwerth i hwnnw, wrth gwrs, a does ond gobeithio a gweddio bod y plant wedi elwa o fod yno. Gobeithio hefyd y daw rhai o'r plant newydd oedd yno yn dychwelyd yno i'r Ysgol Sul.

Cawn gyfle yn fuan gobeithio i drafod y cyfarfod ac i benderfynu beth i'w drefnu nesaf.

## Cwpan Efe

Daeth noson Cwpan Efe yn noson go bwysig i blant yr Ysgolion Sul ers sawl blwyddyn, ac mae dyddiad y noson wedi ei osod ar gyfer eleni.

Cynhelir y gystadleuaeth bel droed 5 yr ochr hon ar gae Ysgol Gynradd Llanrug nos Iau, Mehefin 25.

Mae'r gystadleuaeth ar gyfer ysgolion Sul cylch Efe, ond mae croeso cynnes i ysgolion Sul o gylch ehangach i gymryd rhan. Oes modd, tybed, cael timau o Lanllechid a Thalybont eleni? Rhowch wybod mor fuan â phosibl.

Plant blynyddoedd ysgol 3, 4, 5 a 6 fydd yn cymryd rhan eleni eto. Ceir rhagor o fanylion gan Andrew Settatee (07929 916 181).

## Cwpan CIC

Cystadleuaeth boblogaidd arall a drefnir bob blwyddyn gan Trobwynt yw Cwpan CIC, i dimau pel droed 5-yr ochr oed uwchradd (Blwyddyn 7-10). Bydd croeso i dimau o bob rhan o'r Gogledd.

Caiff ei chynnal eleni, fel y llynedd, yn Abererch, ar dir Canolfan Gristnogol Tŷ Nant nos Iau, Gorffennaf 9.

Cafwyd noson lwyddiannus iawn yno'r llynedd ac edrychwn ymlaen at noson yr un mor llwyddiannus eleni.

Andrew sy'n trefnu'r gystadleuaeth hon hefyd gan ei fod yn parhau i weithio i

Trobwynt yn ogystal ag i Efe.

## Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr

Cynhelir Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg eleni yn Nant Gwrtheyrn o ddydd Iau, Gorffennaf 2 hyd ddydd Sadwrn, Gorffennaf 4.

Hwn fydd y tro cyntaf i'r Annibynwyr, neu unrhyw enwad arall o ran hynny, gynnal eu cyfarfodydd blynyddol yn Nant Gwrtheyrn.

Dechreuir am 11 o'r gloch ddydd Iau ac am 10.00 o'r gloch ddydd Gwener.

Os na fyddwch yno yn ystod y dydd ar gyfer y trafodaethau, bydd croeso i chi i'r Oedfa o Fawl ar y nos Wener. Bydd honno am 7.30 o'r gloch, a phregethir gan y Parchg Euros Jones, Llangefni.

Llywydd yr Undeb eleni yw'r Parchg Ddr R Alun Evans.

## Diwrnod Bach i'r Brenin Mawr

Daw Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr i ben gyda 'Diwrnod Bach i'r Brenin Mawr', a gynhelir yn Nant Gwrtheyrn ddydd Sadwrn, Gorffennaf 4.

Diwrnod o addoliad a mwynhad fydd hwn i blant, ieuencid a phobl o bob oed. Bydd yno weithgareddau arbennig ar gyfer y gwahanol oeddrannau, a chyfle i addoli mewn arddull fywiog a ffres. Bydd y pwyslais ar gyflwyno neges y Beibl a dysgu am yr Efengyl.

Bydd y gweithgareddau'n cychwyn am 10.30 o'r gloch y bore ac yn dod i ben am 4.00 o'r gloch y pawns.

Daw rhagor o fanylion yn y man.